Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

Cynhaliwyd yr Eisteddfod ar 19 a 20 Ebrill.Y beirniaid eleni oedd: Nos Wener (Lleol) : Cerdd – Beca Fflur Williams, Rhydyfelin. Llefaru: Elliw Dafydd, Silian. Dydd Sadwrn (Agored): Cerdd : Trystan Lewis, Llanfair Talhaearn. Llefaru: Ivoreen Williams, Saron, Rhydaman. Cyfeiliwyd gan Lona Phillips, Abermagwr.
Yr Arweinyddion oedd Catryn Lawrence a Manon Evans (Dydd Gwener), Gregory Vearey-Roberts, Lowri Mair Jones, Llifon Ellis, a Sara Gibson.
Y llywyddion oedd Sion Hurford – nos Wener; Meirion Roberts, pnawn Sadwrn ac Eirwen Hughes (nos Sadwrn). Diolchwn iddynt am eu rhoddion.
Swyddogion y pwyllgor yw: Cadeirydd: Marianne Jones-Powell; Is-gadeirydd: Sara Gibson.Ysgrifennydd : Ceris Gruffudd; Is-ysgrifennydd: Llio Adams; Trysoryddion: Eleri James ac Elin Haf Williams.
Bore Gwener daeth y newydd trist am farwolaeth Gerwyn Powell – gŵr ein Cadeirydd Marianne Jones -Powell ac estynnwn ein cydymdeimladau dwysaf ati.

Ni chafwyd cystadleuwyr o'r ddau Gylch Meithrin oedd yn drueni gan fod y profiad o fod ar lwyfan am y tro cyntaf yn gallu cyfrannu cymaint i brofiad rhai bach. Roedd cryn frwdfrydedd ymhlith disgyblion y ddwy ysgol ac eraill o blant y pentref a da oedd gweld eu parodrwydd byrfyfyr i ddod i gystadlu ar Sgen ti dalent – mae'n amlwg eu bod wrth eu bodd yn perfformio. Diolch i ddisgyblion a staff y ddwy ysgol am eu cefnogaeth.

Dydd Sadwrn cafwyd cystadleuwyr o wahanol bentrefi y dalgylch a da oedd gweld y cystadlaethau uwchradd ac offerynnol wedi denu mwy nag arfer o gystadleuwyr.Diolch i Lucy, Imogen, Abigail a Daisy o Glwb Ieuenctid Penrhyn-coch am gynorthwyo yn y sesiynau.

Enillydd Tlws yr Ifanc (Cerddorol)
Daeth naw ymgais i law - yr enillydd oedd Elain Tanat, o Landre, Aberystwyth, sydd yn astudio cerddoriaeth cyfoes a Chlasurol ym Mhrifysgol Lerpwl. Yn ôl Elain: "Mae'r gerddoriaeth yn ysgafn a chwareus i geisio cynrychioli titw tomos las yn dawnsio, mae'r prif motiff cyntaf yn cynrychioli'r titw tomos las gwreiddiol, yna wrth i fwy o adar ymuno yn y ddawns, mae mwy o fotiffau yn gallu cael ei clywed er mwyn rhoi teimlad o'r adar i gyd yn dawnsio a chwarae efo'i gilydd." Ei dymuniad yw cyfansoddi - ar gyfer ffilmiau/ teledu a gemau fideo.

Enillydd y gadair
Dyma gadair gyntaf Owain Llywelyn Roberts -anwyd a magwyd yng Ngherrigydrudion. Mae'n briod â Maria ac mae ganddynt dair o ferched, Lleucu, Ela ac Alys. Yn ôl Owain "Yr unig amser dwi wedi mentro o'r ardal ydi i fynychu Prifysgol Cymru Aberystwyth i astudio Cymraeg a Hanes Cymru gan raddio yn y flwyddyn 2000."
Aeth adref wedyn i weithio yn y cwmni teuluol, sef Teiars Saracens, ac erbyn hyn ef a'i wraig yw perchnogion y cwmni sydd â changhennau yng Ngherrigydrudion, Y Bala, Llangefni a Phwllheli.

Dysgodd gynganeddu pan yn y 6ed dosbarth yn Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun, gan gario mlaen yn y Brifysgol ond ar ôl graddio heb wneud ryw lawer. Ond mi fu iddo ail afael ynddi o ddifrif ar ôl y cyfnod clo cyntaf ac wedi cario mlaen ers hynny gan gwrdd â beirdd Penllyn yn Yr Eagles yn Llanuwchllyn bob nos Fercher. Mae'r Prifardd Elwyn Edwards o'r Bala wedi rhoi arweiniad iddo dros y blynyddoedd. Ei brif ddiddordeb arall ydi tyfu llysiau ar gyfer eu harddangos mewn sioeau ac mae'r tawelwch meddwl mae'n ei gael yn yr ardd yn rhoi amser iddo feddwl am englyn ac ati!!!

Cafwyd tipyn o gystadleuwyr ar y cystadlaethau cartref – Cadair (11), englyn (12). Telyneg (15), Limrig, (17), Cerdd..natur (22), Brawddeg (`7), Stori fer (5), Erthygl (2), Adolygiad 94), Tlws yr Ifanc (9).

Dyma'r canlyniadau.

Canlyniadau nos Wener
Unawd Meithrin: 1 Caio Vearey-Roberts
Llefaru Meithrin: Dim cystadlu
Unawd (Dosbarth Derbyn): 1 Leisia Davies 2 Miriam Thomas 3 Myfi Edwards
Unawd (Blwyddyn 1-2): 1 Casi Vearey-Roberts 2 Ela Parry 3 Ania Hughes
Unawd (Blwyddyn 3-4): 1 Anest Emlyn 2 Sion Gibson 3 Erin Ellis Barr
Unawd (Blwyddyn 5-6): 1 Ned Williams 2 Rhys Mills 3 Iona Parry
Unawd Offeryn Cerdd (cynradd): 1 Jac Jenkins 2 Sion Gibson 2 Henry Richards
Unawd Ysgol Uwchradd: 1 Iwan Finnigan
Unawd Offeryn Cerdd (Ysgol Uwchradd): Dim cystadlu
Llefaru (Dosbarth Derbyn): 1 Leisia Davies 2 Miriam Thomas 3 Myfi Edwards
Llefaru (Blwyddyn 1-2): 1 Ania Hughes 2 Niamh Kelly 3 Olivia Dowse
Llefaru (Blwyddyn 3-4): 1 Sion Gibson
Llefaru (Blwyddyn 5-6): 1 Jac Jenkins 2 Rhys Mills 2 Harrison Hughes
Llefaru Ysgol Uwchradd: Dim cystadlu
Parti Canu: 1 Côr Ysgol Penrhyn-coch 2 Parti Ysgol Pen-llwyn 3 Côr Cyfnod Sylfaen Penrhyn-coch
Parti Llefaru: 1 Parti llefaru Ysgol Penrhyn-coch 2 Parti Llefaru Ysgol Pen-llwyn 3 Parti Llefaru Cyfnod Sylfaen Penrhyn-coch
Sgen ti dalent: 1. Iona Evans 2 Harrison Hughes 2 Jac Jenkins 2 Rhys Mills
Tlws yr Ifanc (dan 25 oed): Elain Tanat, Llandre

Dydd Sadwrn
Unawd Dosb Derbyn ac Iau: 1. Lowri Jenkins, Clarach 2 Roni Gwilym, Rhydyfelin
Llefaru Dosb Derbyn ac Iau: 1 Roni Gwilym, Rhydyfelin a Lowri Jenkins, Clarach
Unawd Blwyddyn 1: Greta Mitchell, Capel Dewi.
Llefaru Blwyddyn 1: 1 Leusa Jenkins, Clarach 2 Greta Mitchell, Capel Dewi
Unawd Blwyddyn 3 a 4: 1 Sion Gibson, Penrhyn-coch 2 Cadi Mitchell, Capel Dewi
Llefaru Blwyddyn 3 a 4: 1 Now Schiavone, Aberystwyth 2 Sion Gibson, Penrhyn-coch 3 Elinor Jenkins, Clarach
Unawd Blwyddyn 5 a 6: 1 Cadi Aur Davies, Pen-uwch..
Llefaru Blwyddyn 5 a 6: DC

Unawd Ysgol Uwchradd: 1 Iwan Finnigan, Penrhyn-coch 2 Mirain Evans, Llandre ac Ela Keevan, Bronant
Llefaru Ysgol Uwchradd: 1 Moi Schiavone, Aberystwyth
Unawd Cerdd dant dan 18 oed: 1 Mirain Evans, Llandre 2 Iwan Finnigan, Penrhyn-coch 3 Ela Keevan, Bronant
Unawd Alaw Werin dan 18 oed (digyfeiliant): 1. Beca Williams, Rhydyfelin 2 Daniel Huws, Penrhyn-coch 3 Aled Jones, Comins-coch, Machynlleth
Unawd Offeryn Cerdd dan 18 oed: 1 Eleanor Nicholas, Aberystwyth 2 Angharad Thomas, Llangwyryfon 3 Mared Parry, Llanfarian
Unawd 18-30: 1 Beca Willians, Rhydyfelin
Llefaru 18-30: DC
Unawd Sioe Gerdd dan 30 oed: 1 Beca Williams, Rhydyfelin
Canu Emyn dros 60 oed: 1 Aled Jones, Comins-coch, Machynlleth 2 Karen Phillips, Aberystwyth
Alaw Werin (Agored): Cydradd 1 Beca Willians, Rhydyfelin 2 Daniel Huws, Penrhyn-coch 3 Aled Jones, Comins-coch, Machynlleth
Ensemble Lleisiol: DC
Deuawd emyn: 1 Casi a Greg Vearey-Roberts, Penrhyn-coch
Llefaru i ddysgwyr: DC
Parti canu: DC
Parti Llefaru (Agored): DC
Côr: 1 Cor Penrhyn-coch
Sgen Ti Dalent? 1 Dawnswyr Seithenyn bach, Aberystwyth
Unawd Gymraeg: 1 Barry Powell, Llanfihangel-y-creuddyn 2 Robert Jenkins, Llanfihangel-ar-arth 3 Aled Jones, Comins-coch, Machynlleth
Her Adroddiad (Agored): 1 Maria Evans, Caerfyrddin
Her Unawd – Hunan Ddewisiad: 1 Robert Jenkins, Llanfihangel-ar-arth 2. Barry Powell, Llanfihangel-y-creuddyn

Canlyniadau cyfansoddi
1. Y Gadair: Owain Llywelyn Roberts, Cerrigydrudion.
2. Englyn: John Ffrancon Griffith, Abergele.
3. Telyneg: Hanna Roberts, Llandaf.
4. Limrig: John Lewis, Llanbadarn Fawr.
5. Cerdd yn ymwneud â byd natur: John Meurig Edwards, Aberhonddu.
6. Brawddeg: Megan Richards, Aberaeron.
7. Stori fer: Anwen Pierce, Bow Street.
8. Erthygl i bapur bro: Carys Briddon, Tre'r-ddôl a Megan Richards, Aberaeron.
9. Adolygiad: John Meurig Edwards, Aberhonddu.
10. Tlws yr Ifanc: Elain Tanat, Llandre.